# Enfys mewn Potel

## BYDDI DI ANGEN:

4 lliw bwyd
4 cwpan
Siwgr
Chwistrell
Potel neu jar
Llwy fwrdd
Dŵr





1. Ychwanega 1 llwyaid o siwgr i'r gwpan gyntaf, 2 lwyaid i'r ail, 3 llwyaid i'r drydedd, a 4 i'r gwpan ola'.



2. Rho 60ml o ddŵr twym ym mhob cwpan, a'u cymysgu nes bod y siwgr wedi hydoddi.



3. Rho bach o liw bwyd coch i'r gwpan gyntaf, lliw melyn i'r ail, gwyrdd i'r trydydd, a glas i'r pedwerydd.



4. Defnyddia'r chwistrell i roi'r sylwedd glas yn y botel neu jar.



5. Gwna'r un peth gyda'r lliwiau eraill - gwyrdd, melyn a choch i orffen.